**EITEM AR YR AGENDA: 15**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19 Rhagfyr 2016**

**TRYSORYDD I'R AWDURDOD**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc a**
**Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau am ganlyniad y broses recriwtio i swydd Trysorydd i'r Awdurdod.

## Gwybodaeth

2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 14 Rhagfyr 2015, comisiynodd yr Aelodau adolygiad ynglŷn â darparu penodiad statudol Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub a'r cytundeb lefel gwasanaeth cysylltiedig.

3 Ar ôl cynnal adolygiad o'r trefniadau ar gyfer swydd Trysorydd yn ATA De Cymru ac ATA Canolbarth a Gorllewin Cymru, cynigiwyd bod ATA Gogledd Cymru yn parhau â'i drefniadau ei hun a oedd yn ceisio cyfuno manteision trysorydd annibynnol yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol ym maes cyllid yn fewnol. Wedi hynny, gosodwyd hysbyseb ar gyfer y swydd ar wefan yr Awdurdod ar 14 Tachwedd gyda 28 Tachwedd 2016 fel dyddiad cau. Daeth un cais i law ac fe wnaeth panel o swyddogion yn cynnwys y Prif Swyddog Tân, y Clerc a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân gyfweld yr ymgeisydd ar 2 Rhagfyr 2016.

4 Ar ôl cyfweliad helaeth, daeth y Panel i'r casgliad fod yr ymgeisydd yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol a'r profiad gofynnol ar gyfer y swydd. Yr ymgeisydd oedd Ken Finch, Cyn-Drysorydd i'r Awdurdod rhwng 1996 a 2015. Oherwydd profiad Mr Finch yn y swydd,

a’r ffaith nad oedd unrhyw ymgeiswyr eraill, dywedodd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod nad oedd angen mynd ymlaen ag ail gam y broses benodi (cyfweliad gyda’r aelodau). O ganlyniad i hyn, cynigiwyd y swydd i Mr Finch ar 6 Rhagfyr 2016, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Awdurdod a chontract.

**Argymhelliad**

5 Bod yr Aelodau’n:

(i) nodi’r broses benodi;

(ii) cymeradwyo penodi Mr Ken Finch i swydd trysorydd gan ddod i rym ar 1 Ionawr 2017, a’r penodiad yn amodol ar gytuno ar drefniadau llwyddiannus o ran y contract;

(iii) Cadeirydd yr Awdurdod i gymeradwyo trefniadau’r contract.